

## 2 Sefydlu'r Fwrdeisdref

Pan oresgynnwyd Gwynedd gan frenin Lloegr, Iorwerth 1, yn 1282, hawliodd ef holl diriogaethau Llywelyn ap Gruffydd, tywysog olaf Gwynedd. Yn eu mysg yr oedd cantref Rhosyr a'i phrif dref Rhosfair, a safai lle mae Niwbwrch heddiw. Parodd ymddygiad swyddogion brenin Lloegr gynhyrfiad gwleidyddol ym Môn a thorodd gwrthryfel Madog ap Llywelyn allan yn 1295. Yn dilyn hyn, er cadw Môn dan ei lywodraeth, penderfynodd Iorwerth 1 wneud Biwmares yn fwrdeisdref rydd, ac, yn ddiweddarach, derbyniodd Niwbwrch fraint gyffelyb. Ar sefydliad /8/ bwrdeisdref newydd a chastell Biwmares yn 1295 collodd hen dref Llanfaes ei breintiau a symudwyd y mwyafrif o'r hen fwrdeisiaid, - a oedd yn Gymry, - i faenor Rhosfair. Sicrhaodd rhai ohonynt diroedd mewn lleoedd eraill.<sup>1</sup>

Rhoddydwyd y freinlen i "Rhosfyr," dyddiedig 3 Mai 1303 yn Durham yn nheyrnasiad Iorwerth 1,<sup>2</sup> ac ar gais y bwrdeisiaid newidiwyd enw'r dref i Newborough<sup>3</sup> pan adnewyddwyd y freinlen yn Kennington yn 1305.<sup>4</sup> Droion ar ôl hyn cafodd y freinlen ei hadnewyddu; yn Ffulmere ar 27 Ebrill 1324,<sup>5</sup> yn Westminster ar 8 Rhagfyr 1330,<sup>6</sup> yn Westminster ar 3 Mehefin 1379,<sup>7</sup> yn Kennington ar 27 Chwefror 1401,<sup>8</sup> yn Westminster ar 16 Tachwedd 1424,<sup>9</sup> ac yn Westminster ar 30 Ebrill 1524.<sup>10</sup>

Cafodd Newborough yr un rhagorfreintiau ag a roddwyd i Ruddlan yn 1284, ond ni chafodd y bwrdeisiaid wybod yr holl fanylion yn y freinlen honno hyd oni wnaed cais am danynt yn 1305, a dyna un rheswm am adnewyddiad y freinlen y pryd hynny.

Nid oedd tiroedd bwrdeisdref Newborough yn cyrraedd hyd derfynau maenor Rhosfair o dan y tywysogion. Meddiannwyd 902 acer, ynghyda 378 llathen ysgwar o'r faenor, ar unwaith at wasanaeth y fwrdeisdref. Ar wahân i 4 acer a oedd yn cyfansoddi ffyrdd y brenin yn y fwrdeisdref, rhoddydwyd y cwbl o'r gweddill o dir yr

1 *Transactions of the Cymmrodorion Society* (1902-3), p.44,n.1; *Rec. C'von* pp.217, 218-9

2 *Patent Rolls*, 17 Ed. II. p. 407

3 *Rec. C'von*. p.220

4 Os yn fyr o arian, byddai'r brenin yn galw am weled y breinlenni yn ywiad, ac wedi edrych drostynt a'u "cadarnhau," dychwelai hwynt *am swm o arian* i'r bwrdeisiaid. Ar farwolaeth brenin-egus da, yr arferiad oedd cael cadarnhau y freinlen gan y brenin dilynol, am dâl, er diogelu rhagorfreintiau y fwrdeisdref! Pan adnewyddwyd breinlen Newborough yn 1330, dywedir mai 20/- oedd y ddiwv (Arch. Camb. III. ix. 189).

5 *Patent Rolls*, 17 Ed. II. p.407

6 *Ibid.* 4 Ed. III. p.27

7 *Ibid.* 2 Rich. II part ii p.351

8 *Ibid.* 2 Hen. IV p.1

9 *Ibid.* 4 Hen. VI p.316

10 *Ibid.* 15 Hen. VIII p.1




Fig. 7 Plan Lewis Morris, o ganol pentref Niwbwrch yn 1738-39 [L.M.'s plan of the centre of the village of Newborough in 1738-9. N.L.W. MS 607 A pp. 130-1]

hen faenor i hen fwrdeisiaid Llanfaes fel ad-daliad am y tiroedd a fu iddynt yn Llanfaes.<sup>11</sup>

Cynhwysai maenor Rhosfair dros 600 acer sef, 10 *carucate* (bob un tua 60 acer), un ardd, un borfa, a thair gweirglodd fach. Pan ymsefydlodd y bwrdeisiaid yno gyntaf, yr oedd rhan go helaeth o'r tiroedd hyn yn wag. Ar ôl i'r fwrdeisdref gael ei thir yr oedd tiroedd, a'u gwerth blynyddol yn agos i ,4, yn adfeilio. Ceid ychydig dyddynnau ar wasgar gyda taeogion Cymreig ynddynt, yn gymysg â thiroedd y bwrdeisiaid, a dechreuodd y trefwyr yn fuan iawn geisio meddiannu y tyddynnau.

Yn 1305 gofynnodd y bwrdeisiaid i'r Tywysog, Iorwerth o Gaernarfon, symud y tyddynnwyr oedd yn eu mysg, fel y gellid amgylchu tir y fwrdeisdref gan derfynau sicr a chlir. Gofynasant /9/ hefyd am gael dal tir maenor Rhosfair am yr un ardreth â'r tenantiaid blaenorol,<sup>12</sup> ynghyda dwy acer o dir pori a oedd rhwng eu tiriogaeth.<sup>13</sup> Caniatwyd iddynt y tir pori ar unwaith; nid oes sicrwydd pa bryd na pha faint o dir y

11 *Exchequer King's Remembrancer Accounts* (cyn 1302) 1227/4.

12 *Rec. C'von*. pp.223-434.

13 *Ibid.* p.218

faenor a roddwyd iddynt, ond dywedir bod y bwrdeisiaid yn arfer dal tir maenor gwerth , 7 y flwyddyn.<sup>14</sup>

Niweidiwyd oddeutu un rhan o dair o dir y faenor gan ystorm ar Òyl Sant Nicolas (6 Rhagfyr) 1331,<sup>15</sup> pryd y dinistriwyd 186 acer mor llwyr gan y môr a goresgyniad y tywod nes ei wneud yn ddiwerth i'w amaethu wedyn.

O ba le y daeth y tywod ? Dywaid traddodiad fod barrau a banciau Bae Caernarfon ar un adeg yn cynnwys rhannau o blwyfi Llandwrog, Clynnog a Llanddwyn. Yn ystod yr ystorm y cyfeiriwyd ati, a phan oedd y llanw ar drai, sychwyd y tywod ar y traeth gan y gwynt cryf a chwythwyd ef i'r tir tu draw i linell y gor-lanw (*high water mark*),<sup>16</sup> gan nad oedd yno na chlogwyn na chreigiau i'w rwystro. Nesaodd y tywod fwyfwy i'r tir, gan orchuddio tir ffrwythlon a'i wneud yn gwbl ddiwerth i bob pwrpas amaethyddol. Golygodd hyn golled i'r bwrdeisiaid o , 4 lls. 6c. y flwyddyn.

Gorchuddiwyd cyfran fawr o blwyf Niwbwrch hefyd gan y lluwchfeydd tywod yma. Sylwer fel y mae lleiniau a gerddi Niwbwrch heddiw, yn enwedig y rhai ar yr ochr dde-orllewinol, mor uchel o'u cymharu â lefel y ffyrdd. Wrth glirio tywod o ardd tŷ a elwir Coedanna yn Heol-yr-Eglwys rhyw hanner can mlynedd yn ôl, darganfuwyd genau pydew lawer o fodfeddi yn is nag arwyneb y tywod.

Naturiol ydyw synied bod teuluoedd lawer wedi'u gyrru o'u tyddynnau yn Llanddwyn i Niwbwrch gan yr anrhaith tywodlyd, a'u bod wedi'u taflu i ymddibynnu ar y than o Niwbwrch a oedd heb ei niweidio, ac i geisio noddfa yn y dref ac felly ei gor-boblogi. Nid oedd gweithfeydd yn agos, a'r pryd hynny ni oddefid i ddieithriaid ymsefydlu mewn plwyfi eraill. Pa ryfedd i'r trigolion, felly, ddeisebu y Llywodraeth (yn 1524)<sup>17</sup> i gael rhyddhad oddi wrth "freintiau" beichus bwrdeisdref ?<sup>18</sup>

Mewn ymgais i rwystro goresgyniad y tywod, plannwyd morhesg yn agos i lan y mor lle'r oedd y tywod wedi gorchuddio y tir, a gorchymynnodd Llywodraeth y frenhines Elizabeth yn 1561 fed i Faer a Beiliaid tref Niwbwrch gosbi pwy bynnag a geid yn torri, /10/ diwreiddio neu gario ymaith y morhesg oedd mor werthfawr oherwydd ei wreiddiau hirion i gadw y tywod rhag ei chwythu ymhellach i'r tir.<sup>19</sup>

Ar ôly distryw a ddechreuodd yn 1331, trethwyd tir y faenor a ddelid gan y bwrdeisiaid i , 4 yn gyffredin. Ni lwyddodd y fwrdeisdref i lyncu yr holl faenor, y

14 *Inquisitiones post mortem*, 6 Ed. III, No. 70.

15 *Ministers' Accounts*, 1152/4, temp. 1409 Yr un peth ddigwyddodd ar hyd traeth deheuol Mon - ymlaen drwy Aberffraw hyd at Rosneigr

16 Dechreuir poncen dywod oherwydd rhyw anwastadrwydd neu rwystr ar y wyneb, a thros hwnnw chwythir y tywod. Mae'r boncen yn fwy serth ar yr ochr yn wynebu'r gwynt nag ar yr ochr gyferbyniol. Gyrrir y tywod fesul tipyn i fyny yr ochr serth gan y gwynt, a syrth i lawr yr ochr arall.

17 Gweler [original *Ed.*] tud. 15.

18 Gwnaed difrod mawr tua 40 mlynedd yn ôl yn ninistriad Braich Aber-menai, ac y mae hyn yn bygwth cau i fyny fynedfa ddeheuol afon Menai. Os gwnaed cymaint niwed mewn cyn lleied o amser yn ein hoes ni, pa faint fwy mewn chwe canrif ?

19 *Rec. Cvon.* p.298.

gelwid y gweddill ohoni yn arferol Hendref Rossir. Yr oedd gwŷr y faer-dref yn Rhosfair yn 1353 yn dal tiroedd gwerth , 6 lŷs. 52c. y flwyddyn.<sup>20</sup> Ond sicrhaodd y bwrdeisiaid ddigon o diroedd i allu marcio terfynau y fwrdeisdref yn glir. Disgrifiwyd y terfynau hyn yn fanwl lawn gan Henry Rowlands, yr hynafiaethydd enwog, yn ei nodiadau ar *Mona Mediaeva*.<sup>21</sup>

Ychydig lawn o dystiolaeth a geir am ffurf adeiladaeth y fwrdeisdref hon.<sup>22</sup> Byddai'r *surveyor* yn marcio allan le i dŷ a llain pob bwrdaid, ac ar y dechrau, ceid mwy o diroedd nag o fwrdeisiaid. Yr oedd y priffyrdd brenhinol yn arwain i farchnadfa y fwrdeisdref, sef "Y Groes," fel y'i gelwir hyd heddiw. O bobtu i'r briffordd safai tai bwrdeisiaid gyda llain o dir glas rhwng pob un. *Placeae* ("places") oedd yr enw Lladin arferol ar y trigfannau hyn, a'r ardreth arnynt yn amrywio. Rhaid oedd i bob bwrdaid fyw yn y fwrdeisdref.

Coed oedd defnydd y rhan fwyaf o dai bwrdeisdrefi Gogledd Cymru. Yn 1305 ceisiodd bwrdeisiaid Niwbwrch (a Biwmares) ganiatad i gael coed o goedwig fawr yr Wyddfa,<sup>23</sup> ond yn ofer. Gallem dybied felly fod mwy o gerrig yn nhai Newborough neu bod y bwrdeisiaid yn cymryd defnydd coed yn ddirgelaidd o goedwig y brenin y tu allan i'r fwrdeisdref. Yr oedd y tai wedi eu hadeiladu gan grefftwy'r ardal ac o ddefnyddiau lleol, ac ni cheid dan dŷ yr un fath. Oes yr amrywiaeth oedd honno, pan oedd pob crefftwr yn amlygu ei nodweddion ei hun yn ei waith.

Penderfynodd brenin Lloegr mai 12c. oedd yr ardreth flynyddol i fod ar bob bwrdaid, un hanner i'w dalu ar Òyl Mihangel a'r llall ar y Pasg,<sup>24</sup> ac yr oedd hyn yn nodweddiadol o fwyafrif y bwrdeisdrefi Cymreig. Ond yr oedd tai Newborough yn amrywio llawer mewn maint, ac felly yn yr ardreth arnynt. Cyfansoddai'r ardrethi hyn y rhan fwyaf o elw tir y fwrdeisdref. Wrth gwrs, ceid lleiniau o dir yn y fwrdeisdref na pherthynent i dal y bwrdeisiaid. Byddai'r bwrdeisiaid yn dal rhai ohonynt - dan ardreth, a'r gweddill yn aros yn nwylo'r Goron.

Yn 1352, ar orchymyn y brenin Iorwerth III, gwnaed *survey* neu *extent* o Wynedd gyda'r amcan o gael gwybod beth oedd y gwahanol ardrethi, ynghyda gwasanaethau a thollau a hawlid yn /11/flaenorol gan y tywysogion Cymreig, er mwyn cyfnewid gwerth yr hawliau hyn am arian, i'w talu i drysorfa'r brenin. Sicrhawyd y wybodaeth drwy roddi 12 rheithiwr ar eu llw, a cheir enwau y cyfryw ar ddechrau'r adroddiad am bob un o'r cymydau. Mae'r holl fanylion ar gael yn y *Record of Caernarvon*, lle y rhoddir enw'r tenant ynghyda'r ardreth flynyddol i'w dalu - un hanner ar y Pasg, a'r hanner arall ar Òyl Mihangel.

20 *Ibid.* p.83.

21 *Arch. Camb.* I, i. 311; gwel. [original *Ed.*] tud 33

22 Mae plan o Niwbwrch gan Lewis Morris yn 1737-8 yn rhoddi rhyw syniad am ffurf y fwrdeisdref; gwel Darlun 7.

23 *Rec. Cvon.* p. 223.

24 *Ibid.* p.223

Gwelir oddi wrth y rhestr sy'n dilyn<sup>25</sup> fod mwy nag un bwrdais yn dal tir a fuasai ym meddiant blaenorol amryw o bersonau eraill. Yn 1348 torrodd allan y Farwolaeth Ddu yn Lloegr a Chymru ac yn ystod 1349-50 bu farw, fe ddywedir, un o bob pedwar o holl boblogaeth y wlad, ac awgrymwn mai hyn a barodd fod mwy o dir nag o denantiaid, gyda'r canlyniad fod ambell fwrdais cefnog yn sicrhau tir amryw. O bosibl hefyd, dyma'r rheswm dros wneud y *survey* yn 1352.

<i>Tenant</i>	<i>Natur y tir</i>	<i>Tenant blaenorol</i>	<i>Ardreth</i>	
			<i>s.</i>	<i>c.</i>
Griffith ap Iorwerth Foel	<i>placea</i> <sup>26</sup>	Adda Wan		3
"	holl diroedd	Einion Goch Physygywr	6	4½
"	<i>placea</i>	Madog ap Ithel		3
"	"	Madog Vedik		1
"	"	William Physygywr		4
"	"	Philip Amlök		6
"	"	Philip ap Jack		6
"	"	Grono Dew		4
"	"	Ieuan ap Gladus		4
William ap Madog Grythor	"	Madog Grythor		9
"	?	Iocyn Ddu		3
"	?	David y Barcer		19
"	perllan	Philip ap Iago		6
"	<i>placea</i>	Ednyfed ap Eneas		5½
"	"	Cynric ap Bleddyn		6
"	"	Philip ap Robin		6
"	fee-farm <sup>27</sup>	Madog ap David		6
Madog ap William	?	Ieuan Fychan		6
"	?	Grono an Ieuan		22
"	?	Thomas ap Philip		5
"	?	Morris ap David		3
"	?	Gruffydd Fychan		1½
"	?	Harri y Person		3
"	?	Einion an Ieuan		3
"	?	Grono Fychan	2	9½
"	?	David ap Ieuan		4½
Grono ap William	?	Ieuan Felyn		6
"	?	Philip ap David		3
"	?	William ap Ithel		3
"	?	Grono ap Ieuan		8

<sup>25</sup> *Rec. Cvon.* pp.85-9.

<sup>26</sup> *placea* yw darn o dir neu adeilad, neu ddau gyda'i gilydd.

<sup>27</sup> *fee-farm* ydyw tir i'w etifeddu o genhedlaeth i genhedlaeth am dreth flynyddol.

"	?	Grono an Iok (Iocyn neu Jack)	5
"	?	Ieuan ap Ieuan	5
"	?	Cynric Bach	¾
/12/ Grono ap William	?	Wrach Eneol	3
"	?	Madog ap Iorwerth Foel	8
"	?	David Gethin	6
"	?	David y Tôwr	6
Ieuan ap William	?	William ap Wilcin	2 0
"	?	Grono ap Iocyn	6
"	?	Gladus ferch Madog	6
"	?	David ap Ieuan	4 0
"	?	Ieuan ap Iorwerth	3
"	?	Gwasmihangel	6
"	?	Madog Wyddel	19
"	?	Hemryn	6
"	?	Magister William	3
"	<i>placea</i>	Reginald Trentham	3
"	?	Ieuan ap Madog	3
"	?	Cynric ap Hona	3
"	?	Cynric ap Bleddyn	6
"	?	David Fychan	2
David ap William	?	Simon Fychan	2 0
"	?	Gwilym ap Philip	6
"	?	Ieuan Grythor.	9
"	?	Richard Goch	3
"	gardd	Wilmark	9
"	?	Philip ap Jack	3
"	?	Ririt Birgyn	2½
"	?	Ieuan ap Philip	18
"	?	Thomas ap Philip	6
"	<i>placea</i>	Yr athro Ririt	2
David Lloyd	3 <i>plac.</i>	David Lloyd ap David	17
"	<i>placea</i>	Gladus ferch William ap David	2
"	<i>placea</i>	Thomas Ddu	1
Tudur y Teiliwr	4 <i>plac.</i>	William ap Daniel	2 3
"	?	Philip ap Madog	2
"	?	David ap Howel	3
Gruffydd ap Cynric	gardd	Morus	3
"	?	Morus	6
"	?	Cynric ap Ieuan	12
"	?	Ieuan Tada	2 7
"	?	Einion ap Jack	19
"	?	Einion ap Ieuan	12

“	?	Einion ap Jack	5
Madog ap Grono Ddu	?	Alice Fychan (? Fechan)	3
“	?	Philip ap David	4
“	gardd	Ieuan Felyn	2
“	2 plac.	Ieuan ap William	6
Ieuan ap David Goch	2 plac.	David Goch ei dad	12
Gruffydd ap Madog	?	Hona ap Ithel	11
“	?	Tegwared ap Meg	1¾
Ieuan ap Iorwerth Lloyd	8 plac.	ei dad	4 0
Madog ap David	4 plac.	ei dad	4 6
Cadwaladr Segur	placea.	Howel ap Gruffydd	9½
“	?	David Lloyd	6
Wm ap Madog ap Iorwerth	placea	ei dad	6
Ieuan y Masnachwr	3 plac.	Alan de Maxfeld	15
Ieuan ap Einion ap Dobyn	2 plac. gardd	ei dad	17
“	placea.	William ap Iorwerth	4½
/13/ Ieuan Goch ap John	2 plac.	ei dad	4
Ieuan ap Jockis	placea.	ei dad	3½
Ieuan ap Ieuan ap Cynric	placea.	ei dad	2 6
Iorwerth ap Grono	2 plac.	ei dad	6
“	placea.	Ieuan ap David	3
“	placea.	Gruffydd ap David ap Howel	3
Simon ap Philip	2 plac.	ei dad	10
“	2 plac.	Cynric Grach	6
Einion ap Philip	gardd	ei dad	8
“	placea.	Gwenhonwy ferch David.	3
“	placea.	Philip ap Iago	6
David ap Tegwared	placea.	ei dad	4
Ieuan ap Tegwared	placea.	Tegwared ap Ieuan	4½
Hona ap Ieuan Felyn	placea.	ei dad	6
Ieuan Lloyd	gardd.	Philip ap Gruffydd	3
Ellen ferch Madog ap Heilyn	placea.	ei thad	3½
Cynric ap Hona	2 plac.	ei dad	5
“	?	Magister William y Physygywr	3
“	?	Ieuan ap William	3
“	?	Ieuan ap David	2
Iorwerth ap Philip	2 plac.	ei dad	10
Grono ap Tudur	2 plac.	ei dad	11½
Ieuan ap Pirs	2 plac.	ei dad	4
“	?	David Feddyg	3
“	?	Grono ap Harri	6
Madog ap David	?	Grono ap Einion	6

“	placea.	Ieuan ap David ap Simon	3
David ap Philcus	2 plac.	ei dad	4¼
“	placea.	Robert o Paris	6
“	?	Ithel ap Madog	1½
Grf.ap Ior.ap Gwasmihangel	3 plac.	ei dad	19
“	?	Madog ap Heilin	1½
Gwenllian ferch Hona	?	Gwenllian ferch Madog	3
Morfudd ferch Einion	2 plac.	Einion Chwith	6
David Fawr	3 plac.	Ieuan Grum [=Gryf]	9
Iorwerth Ddu ap Ithel	placea.	ei dad	6
Mer.ap Llyw.ap Eden[yfed]	gardd.	ei dad	18
David ap Richard ap Ieuan	gardd	ei dad	6
Corfforaeth y dref	?	David Gaplan <sup>28</sup>	3
David ap Rhys	gardd	ei dad	15
Grono ap Ieuan	gardd	ei dad	6
Grono ap Howel	gardd	Gruffydd ap Iorwerth	4
Corfforaeth y dref	gardd	Tudur Foel	12
David ap Cynric	placea.	ei dad	6
Gwenllian ferch Tudur	2 plac.	Ieuan ap David ap Einion. 2	4
Philip ap Madog	?	ei dad	2½
Gladus <sup>29</sup> wr. Howel ap Gruff.	2 plac.	Gruff.ap Ior. a Ieuan Topau &c.	8
/14/ Iorwerth ap Gruff. ap Hona	2 plac. 3 crofts <sup>30</sup>	ei dad	14
Hona ap Ieuan Felyn	2 plac.2 crofts	ei dad	3 2½
Gwen f. Ior ap. Grf ap. Dav	2 plac.3 crofts	ei thad	3 1
David ap Philip	3 crofts	Thomas Fychan	3 2
“	croft	ei dad	17
Gruffydd Fychan	2 plac. croft	ei dad	2 8
Corfforaeth y dref	plac.	?	3
Madog ap Grono .	croft	ei dad	6

113s. 8c.

Nid oedd bwrdeisiaid Newborough, mwy na bwrdeisiaid eraill yng Ngogledd Cymru, dan unrhyw rwymedigaeth i wasanaethu brenin Lloegr am eu tiroedd, ond yn unig i dalu yr ardreth arnynt. Ar un adeg ceisiwyd gorfodi rhai o'r bwrdeisiaid i ymuno â rhengoedd y minteioedd Cymreig a anfonwyd i gynorthwyo brenin Iorwerth III yn ei ryfeloedd yn yr Alban, ond hysbyswyd ef ar unwaith eu bod yn rhydd oddi wrth y

---

28 Offeiriad yn byw yno.

29 Cymharer “Cerrig Gladus” yn y Gwninger Fawr.

30 Anodd gwahaniaethu rhwng y gerddi a'r *crofts* (h.y. caeau bychain), ond defnyddid yr olaf i amcanion amaethyddol

cyfryw wasanaeth fel pob bwrdaes arall, ac ymhellach, mai eu hunig wasanaeth hwy oedd cadw heddwch yn y wlad<sup>31</sup> pan fyddai ef mewn gwledydd tramor.

Eu prif ragorfreintiau fel bwrdeisiaid oedd:

(1) yr hawl i benodi maer a beiliaid, i ddal carchar rhydd,<sup>32</sup> i fwynhau breintiau *sok*<sup>33</sup> a *sak*,<sup>34</sup> *toll*,<sup>35</sup> a *team*,<sup>36</sup> a *infangenethef*,<sup>37</sup> i wneud tir cwingod a choedwig yn eiddo rhydd;<sup>38</sup>

(2) ni chaniateid i unrhyw Iddew fyw yn y dref;

(3) nid oedd eiddo bwrdaes a fyddai farw yn ddi-ewyllys i'w feddiannu gan y Goron;

/15/(4) yr hawl i gael *gild merchant*<sup>39</sup> *with hanse*<sup>40</sup> &c. ac i gynnal marchnad a ffeiriau lleol;

(5) rhyddid oddi wrth *tolnetum*,<sup>41</sup> *lastage*,<sup>42</sup> *passage*,<sup>43</sup> *murage*,<sup>44</sup> *pontage*,<sup>45</sup> *stallage*,<sup>46</sup> *leve*,<sup>47</sup> *danegeld*,<sup>48</sup> *gaywite*;<sup>49</sup>

(6) nad oeddynt i gael eu barnu ond gan eu cyd-fwrdeisiaid ac yn eu hardal eu hunain.

Ym mlynnyddoedd cyntaf y fwrdeisdref yr oedd ei swyddogion dan awdurdod Dirprwy-Lywodraethwr Gogledd Cymru, ac nid oedd beiliaid y dref nemor fwy na

31 h.y. dim ond cyn belled o Newborough ag y gallent ddychwelyd adref yr un diwrnod.

32 Er cadwraeth ddiogel pob carcharor a ddeuai o dan eu hawdurdod hwy. Bob tro y rhyddhawyd carcharor, telid 4c. i feiliaid y dref. - *Patent Rolls*, Ed. III, 1307 - 13, p.525

33 Yr hawl i holl drigolion y fwrdeisdref ymddangos yn llysoedd y fwrdeisdref, pan fyddent yn cyfeithio neu pan fyddai eu presenoldeb mwy yn angenrheidiol yno.

34 Yr hawl i gael rhybudd priodol o unrhyw gyhuddiad yn eu herbyn.

35 Yr hawl i dderbyn tollau ar yr holl nwyddau a brynid ac a werthid oddi fewn terfynau eu marchnad leol.

36 Yr hawl i gynnal llysoedd yn y dref lle y gallai dynion *heb* fod yn fwrdeisiaid gyfreithio.

37 Yr hawl i grogi lladron a ddelid y tu fewn i derfynau y fwrdeisdref.

38 Rhoddyd diwedd ar bob cwinger neu goedwig a allasai fod yn nhiroedd y fwrdeisdref; ni chaniateid hela ynddynt nac adeiladu tai arnynt. Trwy hyn yr oedd y trigolion o'r tu allan i derfynau y fwrdeisdref yn cael eu hestroni oddi wrth y bwrdeisiaid.

39 Cymdeithas o fasnachwyr mewn bwrdeisdref a hwy yn unig i reoli popeth ynglŷn â'r fasnach yno

40 Swm arbennig i'w dalu gan bob bwrdaes ar ei sserbyniad i gymdeithas masnachwyr y fwrdeisdref.

41 Rhyddid i brynu a gwerthu nwyddau yn ddidoll yn unrhyw ffair a marchnad yng Nghymru neu rywle arall.

42 Rhyddid i gludo nwyddau a brynid ganddynt i rywle a fynnent ac yn ddidoll.

43 Rhyddid i gludo eu nwyddau &c. yn ddidol dros bob porthfa a phont frenhinol

44 Rhyddid rhag cyfrannu at gynhaliathuriau unrhyw fwrdeisdref yr ymwelent â hi i fasnachu.

45 Rhyddid rhag talu toll pontydd y trefi yr aent drwyddynt.

46 Osgoi talu tollau a godid mewn gwahanol fwrdeisdrefi at adgyweirio heolydd a'r ffyrdd ynddynt.

47 Cael peidio â thalu mewn unrhyw farchnad neu ffair i swyddogion arbennig a aent o gwmpas y dref i ddiogelu ei ragorfreintiau hi.

48 Treth ar y tir at gynnal byddin yn erbyn y Daniaid.

49 Cael osgoi cyfrannu arian at ryfel.

gweision y Goron. Ond yn raddol daeth y weinyddiad yn fwyfwy i ddwylo'r bwrdeisiaid.

Yn y bedwaredd ganrif ar ddeg rhoddai y beiliaid adroddiad manwl iawn o dderbyniadau a thaliadau y fwrdeisdref, ond gyda threigliad amser aeth y fwrdeisdref i "ffarmio"<sup>50</sup> ei thiroedd yn ôl ardrethi blynyddol. Byddai'r holl fwrdeisdref weithiau yn cael ei "ffarmio" am un swm am nifer o flynyddoedd, felly hefyd melin(au) y dref a'r borthfa. Yn aml byddai y Dirprwy-Lywodraethwr lleol yn newid tipyn ar y swm oedd i'w dalu. Parhaodd y trefniant hwn yn Newborough hyd ddiwedd yr Oesoedd Canol, h.y. tua'r flwyddyn 1500.

Nodwedd arbennig y fwrdeisdref oedd ei llys barn annibynnol ond yn anffortunos, ni wyddis ddim bron am weithrediadau llysoedd bwrdeisdref Newborough. Etholid y maer gan y bwrdeisiaid o'u mysg eu hunain ar Ëyl Fihangel ymhob blwyddyn.<sup>51</sup> Ceid crwner yma hefyd yn ystod hanner gyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg. Er i Newborough roddi heibio ei breinlen yn 1524, parhaodd y bwrdeisiaid i ethol maer mor ddiweddar ag 1811.

Sut y llywodraethid y fwrdeisdref? Nid ymddengys fod cofnodion ei llysoedd ar gael, oddi eithr rhai o eiddo ffair a marchnad,<sup>52</sup> ond mae'n sicr fod gan Newborough, fel bwrdeisdrefi eraill, bedwar neu bump o lysoedd gwahanol: /16/

(1) *View of Frankpledge* neu'r *Tourn*. Hwn ydoedd prif gorff llywodraethol y fwrdeisdref a gyfarfyddai ddwywaith yn y flwyddyn, yn gyffredin ym misoedd Mawrth neu Ebrill ac ym Medi. Maer y dref oedd, mewn enw, yn ben y llys hwn, ond y ddau feili<sup>53</sup> a arferai gario gwaith y llys ymlaen, gyda'r prif fwrdeisiaid yn gweithredu fel rheithwyr yn ôl yr angen. Dyma'r llys lle y rhoddyd ar brawf y rhai a gyhuddid o ymosod ac ymryson, o ladrata a thwylllo ynglŷn â phwysau a mesurau; yma hefyd yr ymwneid â materion a ddaliai berthynas â breintiau ac eiddo'r fwrdeisdref. Yr oedd yr holl fwrdeisiaid i fod yn bresennol yn hwn, onide fe'i cospid os heb reswm digonol.

(2) *Llys y dref*, lle y gwrandewid cwynion ynglŷn â thresmasu a dyledion. Cynhaliwyd y llys hwn bob tair wythnos dan lywyddiaeth y ddau feili.

(3) *Llys y farchnad* a (4) *Llys y ffair*. Drannoeth ar ôl pob marchnad a ffair, neu ymhen diwrnod neu ddau wedyn, gwrandawai y beiliaid ar gyhuddiadau ynglŷn â chytundebau, dyledion, tresmasu, talu tollau a materion eraill perthynol i'r farchnad neu'r ffair. Rhoddai Llys y ffair a'r (5) *Piepowder Court* gyfle i setlo cwynion ynglŷn â marchnatwyr o bell ffordd oedd wedi bod yn y ffair. Byddai'r achosion hyn yn cael eu setlo yn gyflym, rhag cadw dieithriaid yn hir yn y dref.

Hyd uniad Lloegr a Chymru yn 1535, cynhaliwyd y farchnad yn Newborough bob dydd Mawrth, a'r ffeiriau ar Wyl Martin (Tachwedd 11) a Gwyl Pedr a Phaul

50 h.y. rhoddi rheolaeth ar gyllid y fwrdeisdref ynghyda'r elw oddi wrtho, i berson a ddewisid gan y fwrdeisdref am daliad swm penodol ganddo.

51 Gweler [original *Ed.*] tud. 33.

52 *Mediaeval Boroughs of Snowdonia*, by E. A. Lewis (London, 1912), p.304.

53 Etholid y beiliaid gan y bwrdeisiaid o'u mysg eu hunain bob blwyddyn ar Ëyl Mihangel.

(Mehefin 29).<sup>54</sup> Y fwrdeisdref hon oedd canolfan masnach i hell drigolion cwmwd Menai. Yn ystod 1304 cyfanswm tollau y farchnad oedd ,2 9s. 3c., a thollau y ffeiriau blynyddol ar gyfartaledd oddeutu ,2. Enillodd y fwrdeisdref gryn ragoriaeth am ei marchnad ychen,<sup>55</sup> gan mai hi oedd y gyntaf bron o ffeiriau Cymru am nifer a rhywogaeth ei hanifeiliaid. Ond yn 1460 nid oedd cyfanswm tollau y farchnad a'r ffeiriau ddim ond 14/8c. Ymddengys fod y Cymry yn arfer mewn rhan, yr hyn yn ddiweddarach a dderbyniasant fel braint gan Harri VII, sef rhyddid rhag talu tollau.

Canmolwyd Rhosyr gan Dafydd ap Gwilym yn y bedwaredd ganrif ar ddeg:

#### I DREF RHOSYR YM MÔN.<sup>56</sup>

Hawddamawr mireinwawr maith  
Tref Niwbwrch trwy lawn obaith!  
A'i glwysdeg deml, a'i glasyr  
A'i gwin, a'i gwerin, a'i gwîr;  
A'i chwrrw, a'i medd, a'i chariad,  
A'i dynion rhwydd, a'i da'n rhad ! /17/  
Cornel ddiddos yw Rhosyr,  
Coedgae y 'wareu i wyr;  
Llwybrau henwyr, lle breiniawl,  
Llu mawr o bob lle a'i mawl,  
Lle diofer i glera,  
Lle cywir dyn, lle cair da;  
Lle rhwydd beirdd, lle rhydd byrddau,  
Lle ym yw ar y llw mau !  
Pentwr y glod, rhod rhyddfyw,  
Pentref dan y nef, dawn yw !  
Pantri difrydig digeirdd,  
Pentan, buarth-baban beirdd.  
*Paement* i borthi pumoes;  
Pell ym yw, eu pwyll a'u moes,  
Coetty'r wlad rhag ymadaw,  
Cyfnither nef yw'r dref draw !  
Cor hylwydd, cywir haelion  
Cyfannedd, mynwent medd Môn !  
Cystedlydd nef o'r trefi,  
Castell a meddgell i mi:  
Perllan clod y gwirodydd,  
Pair Dadeni pob rhi rhydd;

<sup>54</sup> *Arch. Camb.* I. i. 307

<sup>55</sup> *Ibid.*

<sup>56</sup> *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym* o grynhoad Owen Jones a William Owen, Llundain (1789), tt. 275-6

Parch pob cyffredin ddinas,  
Penrhyn gloyw feddyglyn glas.<sup>57</sup>

Yma am y tro cyntaf y gwelodd Dafydd ap Gwilym ei Forfudd annwyl mewn gëylmabsant a gedwid ar 29 Mehefin, gwyl Sant Pedr, oddeutu 1360. Merch ydoedd hi i Madog Lawgam, gë'r bonheddig o Fôn; os yn ardal Niwbwrch y trigai "y fun o eithin fynydd," y lle tebycaf fuasai yng nghyfeiriad y "Bryniau" a "Bryn Madog" wrth ymyl.

Digwyddodd cyfnod mwyaf llwyddianus Newborough yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg, pan dderbynai y Goron bron yn ddiethriad ardreth flynyddol yn amrywio o ,30 i ,36. Hyd yn oed mor ddiweddar â 1410 yr oedd tiroedd gwerth ,1 10s. 0c. y flwyddyn yn ddiendant yn nwylo'r Goron, a pharhaodd rhai lleoedd felly yn ystod amser Harri V, pan oedd cyfanswm yr ardreth yn amrywio o ,20 i ,27 2s. 0c. Glynodd wrth y swm olaf hyn hyd 1468. Yn 1543, am ryw reswm neu'i gilydd, disgynnodd y derbyniadau yn sydyn i ,11 3s. 4c. a dyna'r swm hyd ddiwedd cyfnod y Tuduriaid (1603).<sup>58</sup> Ymddengys mai gostyngiad yn y derbyniadau masnachol ac o'r llysoedd a barodd hyn.

Yn awr rhoddir braslun o hanes cysylltiad personol brenhinoedd Lloegr â'r fwrdeisdref./18/ Yng Nghaernarfon ar 21 Hydref 1284, hysbysodd y brenin Iorwerth 1 ei fod yn rhoddi i'w wraig Eleanor am ei hoes faenor Rhosfair, ynghyda chwmdw Menai a *carucate* o dir yn Llanfaes, a hefyd faenoriaid Dolbenmaen a "Penhathan" yn Arfon, ar yr amod nad oeddynt i gael eu gwahanu oddi wrth Goron Lloegr.<sup>59</sup>

Pan ddaeth ei fab Iorwerth II i'r orsedd yn 1307, gwnaeth yntau ddarpariaeth gyffelyb i'w wraig Isabella ar 1 Mawrth 1309 yn Westminster.<sup>60</sup> Ymddengys bod trefniant wedi ei wneud o dan arolygiaeth y Pab Boniface VIII, rhwng ei thad Phylip brenin Ffrainc a Iorwerth 1 brenin Lloegr (tad Iorwerth II), fod gwaddol gwerth ,4,500 i'w roddi i'r frenhines Isabella wrth ddrws yr eglwys ar ddiwrnod eu priodas.

<sup>57</sup> Hail to thee, long lovely dawn/Newborough town, home of true hope/And its fair and lovely temple, its green towers/And its wine and its folk and its men/And its beer and its mead and its loving/And its bountiful men and free provision/Rhosyr s a cosy corner/t is a field for men to play/Acountry home preventing leaving/That town is heaven's cousin!/A rich host of the true and bounteous/A homely place, Môn's burial-place for mead!/It is of all towns heaven's contender/It is to me mead-cell and castle/The pathways of our fame, a royal place/Agreat host from all places praise it/A place where it is not vain to sing/Place of true men where wealth is for the having/An easy place for poets, a place of lavish tables/By my troth, a place for me!/Best tower of praise, of free and lively circuit/Best town under heaven is it for talent/It is a faultless open pantry/A hearth, a poet's fire ring/A payment to support five ages/Their courtesy to me a wisdom are long lasting/Renowned orchard for all drinks/Cauldron of rebirth for all bounteous kings/The honour of all city commoners indeed/Headland of fresh, sparkling drinks of mead. Gwyn Thomas *Dafydd ap Gwilym, his poems* Cardiff 2001 p.262

<sup>58</sup> "At the latter end of king Henry VIII's reign (c.1547) Newborough consisted of 93 houses, 13 gardens, 1 orchard, 12 crofts, and 60 small pieces of ground, called erwau, enclosed for the use of the houses." Sebright Papers, *History of Mona*, by Angharad Llwyd, p.317.

<sup>59</sup> *Chancery Rolls*, 1277 - 1326, p.290.

<sup>60</sup> *Pat. Rolls*, 2 Ed. 1, part 1, p.101.

Yn y gwaddol hwn cynhwysid maenor Rhosfair a chwmwd Menai.<sup>61</sup> Ond cyn diwedd y flwyddyn honno, sef ar 30 Hydref 1318, rhoddwyd iddi iarllaeth Gernyw yn lle y tiroedd uchod ym Môn ac Arfon;<sup>62</sup> a thrannoeth rhoddodd y brenin y tiroedd olaf hyn, a oedd a'u gwerth blynyddol yn , 170, i'w fab a'i ferch, John ac Eleanor.<sup>63</sup>

Yn agos i ddwy flynedd yn ddiweddarach, ar 1 Mai 1320, trosglwyddwyd yr un tiroedd eilwaith i'r frenhines Isabella, hyhi i ddefnyddio yr arian oddi wrthynt at dreuliau y mab a'r ferch. Y tri swyddog i edrych ar ôl yr etifeddiaeth oedd Richard Damory,<sup>64</sup> Robert de Manley a Nicolas de Hugate.<sup>65</sup> Yn 1330 penodwyd Edward Haclut i'r swydd.<sup>66</sup>

Rhoddodd y frenhines Isabella yr holl diroedd a ddaliai (yn cynnwys Rhosfair) i'w mab Iorwerth III yn 1345 am flwydd-dâl o , 3,000.<sup>67</sup>

Caniataodd y Tywysog Du (mab Iorwerth III) yn 1347 i fwrdeisiaid Newborough a'u hollynwyr ethol un ohonynt eu hunain yn faer bob blwyddyn ar Wyl Fihangel, ar yr amod fod y maer a etholid yn Sais, a'i fod yn cymryd llw o ffyddlondeb i'r Tywysog a'r Gorfforaeth; ac ar ôl ei benodiad ei fod yn gwneud cyffelyb lw ger bron *chamberlain* y Tywysog yng Nghaernarfon.<sup>68</sup>

Yn nheyrnasiad Rhisiart II (1377-99) dewiswyd William Kilmyngton yn borthor Rhosfair yn 1395,<sup>69</sup> ef i dderbyn ardreth ac elw Newborough. Ddwy flynedd ar ôl hyn dywedid nad oedd unrhyw ardreth i'w chael.<sup>70</sup> Yn 1399 rhoddwyd i'r porthor 25 marc (h.y. , 16 13s. 4c.) yn flynyddol gan y Trysorlys, ynghyda , 33 13s. 4c. gan Harri IV, yn lle ardreth Newborough, gan fod /19/yr ardreth honno yn perthyn i Dywysogaeth Cymru.<sup>71</sup> Ymddengys fod archwilwyr a swyddogion y brenin yn dweud nad oedd maenor o'r enw Rhosfair yn y sir, ond mai tref ydoedd.<sup>72</sup>

Yna ceir bod Harri VI yn gosod Hugh de Orell yn borthor am , 10 y flwyddyn;<sup>73</sup> ond ychydig ar ôl hynny, rhoddwyd Gilbert Orell yn gyd-swyddog â'i dad, y ddau i gael , 10 rhyngthynt "out of the rents, issues and profits of the manor town or portership (*portarii*) of Rosfaire, Anglesey."<sup>74</sup> Thomas Yonge neu ei ddirprwywr

---

61 *Ibid.* 11 Ed. 11, p.116.

62 *Ibid.* 12 Ed. 11, p.223.

63 *Ibid.* 12 Ed. 11, p.222.

64 *Ibid.* 13 Ed. 11, p.453

65 *Fine Rolls*, 12 Ed. 11, p.389.

66 *Ibid.* 4 Ed. III, p.201.

67 *Pat. Rolls*, 19 Ed. III, part i, pp.447-8.

68 *Black Prince's Register*, part i, 1346-8, p. 155

69 *Pat. Rolls*, 19 Ric. II, p.615.

70 *Ibid.* 20 Ric. 11 p.85

71 *Pat. Rolls*. 1 Hen. IV, p.186.

72 *Ibid.* Hen. VI, part i, p.402

73 The office of the Steward of the Townes of Newborough and Rosfair his yerelie fee was ten pounde. 10, @Llanstephan MS. 192, fo.90

74 *Pat. Rolls*, Hen. VI. p.561

oedd yn dal y swydd yn 1437, gyda'r cyflog a'r taliadau arferol.<sup>75</sup> Yn 1544 penodwyd Thomas Moyle yn stiward tref "Rosure alias Newburghe," yn lle David Holland a fu farw, a'i dâl yn , 6 13s. 4c.<sup>76</sup>

Chwe blynedd ar ôl hyn, maddeuodd y brenin Iorwerth VI i John ap Robert Lloid a'i fab Edward ap John Lloid am lofruddio Richard ap Howell ychydig cyn hynny yn agos i Dreferwydd yng nghwmwd Menai, a dychwelyd iddynt eu tiroedd a'u gerddi.<sup>77</sup> Yn 1557 rhoddwyd y tir lle y safai melin Rhosfair, a oedd yn adfail ers blynyddoedd cyn hynny, ar brydles am un mlynedd ar hugain i Rydderch ap David, "gentleman usher of the King's Chamber," am ardreth flynyddol o 6/8.<sup>78</sup>

Erbyn tua'r flwyddyn 1602 yr oedd cydnabyddiaeth y stiward wedi gostwng i , 11.<sup>79</sup>

---

75 *Ibid.* 1436-41, p.69

76 *Letters & Papers, Foreign & Domestic*, Hen. VII, vol. xix, part I, p.287.

77 *Pat. Rolls*, Ed. VI, 1549-51, p.328.

78 *Ibid.* Philip & Mary, 1557-8, p.25. See also [original *Ed.*] p.28.

79 The Steward of Rosfaire, whose yerelie fee ys twentie shillings. 20s.@Llanstephan MS. 192, fo. 102. (c.44 Eliz.)